OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 833

## Rheoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2020

**Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2—

(a) cyn Rhan 1 mewnosoder—

"Rhan A1

Rhagymadrodd

**Dehongli**

**A1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "pla cwarantin parth gwarchodedig" ("*protected zone quarantine pest*") yw pla o fewn yr ystyr a roddir gan Erthygl 32(1) o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE;

ystyr "pla cwarantin yr Undeb" ("*Union quarantine pest*") yw pla o fewn yr ystyr a roddir gan Erthygl 4 o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE;

ystyr "PRHG" ("*RNQP*") yw pla a reoleiddir gan yr Undeb heb gwarantin o fewn yr ystyr a roddir gan Erthygl 36 o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE;

ystyr "Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE" ("*EU Plant Health Regulation*") yw Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cygnor ar fesurau diogelu rhag plâu planhigion.;";

(b) yn lle paragraff 15(4) rhodder—

"(4) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd fod yn rhydd i bob pwrpas rhag unrhyw blâu sy'n lleihau defnyddioldeb ac ansawdd yr hadau.

(5) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd gydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â phlâu cwarantin yr Undeb, plâu cwarantin parth gwarchodedig a PRHGau a nodir mewn actau gweithredu a fabwysiedir yn unol â Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE, a mesurau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 30(1) o'r Rheoliad hwnnw.";

(c) ym mharagraffau 28 a 42, yn lle is-baragraff (3) ym mhob achos rhodder—

"(3) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd fod yn rhydd i bob pwrpas rhag unrhyw blâu sy'n lleihau defnyddioldeb ac ansawdd yr hadau.

(4) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd gydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â phlâu cwarantin yr Undeb, plâu cwarantin parth gwarchodedig a PRHGau a

(**1**) O.S. 2012/245 (Cy. 39). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Mae O.S. 2012/245 (Cy. 39) wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/368 (Cy. 90).

nodir mewn actau gweithredu a fabwysiedir yn unol â Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE, a mesurau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 30(1) o'r Rheoliad hwnnw.";

(d) yn lle paragraff 50(4) rhodder—

"(4) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd fod yn rhydd i bob pwrpas rhag unrhyw blâu sy'n lleihau defnyddioldeb ac ansawdd yr hadau.

(4A) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd gydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â phlâu cwarantin yr Undeb, plâu cwarantin parth gwarchodedig a PRHGau a nodir mewn actau gweithredu a fabwysiedir yn unol â Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE, a mesurau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 30(1) o'r Rheoliad hwnnw."